## Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

## Cwestiynau Cyffredin

C: Mae ‘Cymunedau a Lle’ yn cefnogi digwyddiadau mewn trefi – a fydd digwyddiadau mewn ardaloedd gwledig yn cael eu cefnogi hefyd?

A: Bydd cyfleoedd ar draws y rhanbarth, a fydd yn cynnwys ein pentrefi a’n cymunedau.

C: A oes modd cefnogi busnesau fferm i arallgyfeirio a chreu swyddi?

A: Oes, yn dibynnu ar natur y cynnig, a yw’n amhosibl ei ariannu drwy gynlluniau grantiau eraill, ac a yw’n cyd-fynd â blaenoriaethau’r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

C: A oes capasiti i gynnig cymorth gyda’r ceisiadau?

A: Mae rhywfaint o gapasiti ar gael drwy dimau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn y ddau awdurdod lleol, ond nid yw’r ddau dîm yn hollol gyflawn eto o ran adnoddau.

C: Beth yw cyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer y cyfnod hwn o fod ‘ar agor i geisiadau’ ym Mhowys?

A: Ar gyfer y ddwy alwad gyntaf sydd wedi’u hysbysebu, mae hyd at £900,000 ar gael ar gyfer ‘Cymunedau a Lle’, hyd at £1.7 miliwn ar gael ar gyfer ‘Cymorth i Fusnesau Lleol’ a £983,000 ar gael ar gyfer ‘Lluosi’. Nid yw ‘Pobl a Sgiliau’ ar agor i geisiadau yn ystod y ddwy alwad agored gyntaf.

C: Beth sy’n digwydd o ran prosiectau cydweithredol posibl lle mae un partner yng Ngheredigion a’r llall ym Mhowys?

A: Oherwydd y gwahaniaeth rhwng ffocws y galwadau yn y ddau awdurdod lleol, dylai prosiectau rhanbarthol eu natur gysylltu â’r ddwy ardal i ofyn am gyngor. Dylai ymgeiswyr gwblhau Cwestiwn 20 ar y ffurflen gais er mwyn darparu gwybodaeth ynghylch sut y mae’r prosiect yn bwriadu cyflawni ar lefel ranbarthol.

C: Allwch chi esbonio ystyr “o leiaf £50,000”?

A: Ym Mhowys, rydym yn chwilio am geisiadau am grant sy’n werth isafswm o £50,000 ac uchafswm o £250,000 y flwyddyn, heb gynnwys astudiaethau dichonoldeb, lle bydd isafswm y cais am gyllid yn £10,000 a’r uchafswm yn £50,000.

C: Os ydym am i brosiectau barhau tan ddiwedd 2024/25 (diwedd y flwyddyn ariannol, sef Mawrth 2025), a oes angen i ni gysylltu â chi i drafod hynny cyn cyflwyno'r cais?

A: Os bydd ymgeiswyr yn gwneud cais am gyllid sy'n mynd i mewn i flwyddyn ariannol 2024/25, bydd cyllid ar gyfer y flwyddyn honno'n cael ei gymeradwyo mewn egwyddor i ddechrau a bydd yn dibynnu ar gynnydd o ran cyflawni'r prosiect yn ystod 2023/24 ac ar gael cadarnhad gan Lywodraeth y DU ynghylch y gyllideb a ddyrennir ar gyfer 2024/25.

C: Pam y mae angen i brosiectau orffen cyflawni ym mis Rhagfyr 2024, oherwydd mae'r Rhaglen yn para tan 31 Mawrth 2025?

A: Dim ond gweithgarwch prosiect tan ddiwedd mis Rhagfyr 2024 yr ydym yn ei gefnogi ar hyn o bryd. Y rheswm am hynny yw bod angen digon o amser i gloi'r rhaglen ar gyfer y rhanbarth.

C: Beth yw lefel y cyllid cyfalaf a'r cyllid refeniw y gellir gwneud cais amdanynt?

A: Cronfa cyllid refeniw yw Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn bennaf, gydag ychydig o gyllid cyfalaf. Dim ond mewn dwy flaenoriaeth fuddsoddi y mae cyllid cyfalaf ar gael, sef 'Cymunedau a Lle' a 'Cymorth i Fusnesau Lleol'. Bydd pob prosiect yn wahanol, felly ni allwn ragnodi lefel y cyllid cyfalaf a'r cyllid refeniw, a bydd pob cais yn cael ei asesu'n unigol. Bydd angen i unrhyw gais sicrhau bod y cyllid y gofynnir amdano (cyfalaf / refeniw) yn bodloni gofynion y prosiect, er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu cyflawni'n llwyddiannus.

C: A fyddech yn ystyried dau gynnig gan yr un sefydliad, yn benodol un i 'Cymunedau a Lle' ac un arall i 'Cymorth i Fusnesau Lleol'?

A: Byddem. Nid oes terfyn ar nifer y ceisiadau y gall un sefydliad eu cyflwyno, ond dylai ymgeiswyr sicrhau bod ganddynt ddigon o gapasiti i gyflawni pe bai mwy nag un cais yn cael ei gymeradwyo.

C: Allwch chi esbonio pa gyllid cyfatebol, os o gwbl, sy'n ofynnol ynteu a yw'r grantiau yn rhai 100%?

A: Nid oes angen unrhyw gyllid cyfatebol, ond byddai unrhyw gyfraniadau ar ffurf cyllid cyfatebol yn helpu gyda'r asesiad o'ch cais o safbwynt gwerth am arian, yn enwedig yng nghyswllt prosiectau mwy o faint.

C: A ellir defnyddio cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin fel cyllid cyfatebol ar gyfer cyllid gan Lywodraeth Cymru neu'r Loteri Genedlaethol?

A: Efallai, ond byddem yn awgrymu y dylech ofyn am gadarnhad gan y darparwr cyllid perthnasol. At hynny, byddai angen rhagor o fanylion arnom am y prosiect ac am y math o gyllid cyfatebol yr ydych yn bwriadu ei ddefnyddio.

C: Os bydd fy nghais yn aflwyddiannus, a fyddaf yn gallu cyflwyno cais arall?

A: Yn dibynnu ar y rhesymau pam yr oedd eich cais yn aflwyddiannus, gallai fod cyfle i chi gyflwyno cais arall yn dilyn trafodaethau â'r tîm cyflawni perthnasol ac os oes digon o gyllid ar gael.

C: Pam nad yw Powys yn derbyn ceisiadau i 'Pobl a Sgiliau' yn ystod y ddwy alwad agored gyntaf?

A: Mae'r gyllideb 'Pobl a Sgiliau' wedi'i blaenoriaethu ar gyfer prosiectau mewnol Cyngor Sir Powys. Y rheswm am hynny yw bod yr awdurdod lleol wedi agor rownd fewnol ar gyfer 2022/23 i brosiectau a oedd yn barod i gyflawni, er mwyn diogelu'r gyllideb. Roedd gan rai o'r prosiectau hynny gyfnod cyflawni hirach, a oedd yn golygu bod cyllideb yn cael ei dyrannu hefyd ar gyfer 2023/24 a 2024/25. O ganlyniad i hynny, cyllideb fach iawn sydd ar gael yn 2023/24 ar gyfer 'Pobl a Sgiliau'. Fodd bynnag, os bydd cyllid yn dod ar gael yn 2023/24, bydd galwadau agored dan y thema hon yn cael eu hystyried.

C: Nodwyd yn y weminar ar 16 Mawrth 2023 bod y gyllideb ganlynol ar gael ar gyfer galwadau agored 1 a 2 ym Mhowys:

- Cymunedau a Lle – £900,000
- Cymorth i Fusnesau Lleol – £1.7 miliwn
- Pobl a Sgiliau – £0
- Lluosi – £983,000

Pam y mae'n wahanol i'r hyn a amlinellwyd yn y Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol?

A: Roedd Llywodraeth y DU wedi pwysleisio bod perygl gwirioneddol y byddem yn colli ein dyraniad ar gyfer Blwyddyn 1 (£3.4 miliwn) pe na bai'n cael ei wario. Felly, fel llawer o awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru, penderfynodd Cyngor Sir Powys agor galwad fewnol am brosiectau a oedd yn barod i gyflawni, a gwario'r gyllideb cyn 31/03/23. Yn anffodus, o ystyried bod y cyllid wedi'i gyhoeddi a'i ryddhau yn hwyr, ni fyddai amser wedi bod i gyflwyno galwad agored am geisiadau allanol oherwydd yr amserlenni ar gyfer cyflwyno ac arfarnu ceisiadau. Cafodd 33 o brosiectau eu cymeradwyo, a chafodd cyllideb ei dyrannu ar gyfer 2022-23 a chyllid pellach ei gymeradwyo mewn egwyddor ar gyfer 2023-24 a 2024-25 ond yn ddibynnol ar berfformiad. Mae hynny wedi effeithio ar y gyllideb sydd ar gael yn gyffredinol. Bydd rhestr o'r prosiectau mewnol ar gael ar wefan Powys: Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn agored ar gyfer ceisiadau – Cyngor Sir Powys.